

2016 Rhif 849 (Cy. 215)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Cyffordd Cross Street a Monk
Street, y Fenni, Sir Fynwy)
(Gwahardd Cerbydau a Beicwyr
Dros Dro) 2016

Gwnaed 24 Awst 2016

Yn dod i rym 31 Awst 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn o Gefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Awst 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyffordd Cross Street a Monk Street, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 31 Awst 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn o'r gefnffordd wrth gyffordd Cross Street a Monk Street yn y Fenni yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 98 o fetrau i'r gogledd-orllewin o

ganolbwynt y gyffordd rhwng Cross Street a Mill Street at bwynt 136 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd rhwng Monk Street a Lower Monk Street.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na pheri reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'u dangosir gan arwyddion traffig.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Awst 2016

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.